

NEWYDDLEN Y GYMRAEG



Mai 2020

Cadw'n Ddiogel. Stay Safe.
Dal ati i Ddysgu. Stay Learning.

Datblygu adnoddau

Fel rhan o raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i ddysgu' Llywodraeth Cymru, bu'r consortia rhanbarthol ac ystod o randdeiliaid yn cydweithio er mwyn datblygu adnoddau fydd yn sicrhau fod dysgwyr yn gallu parhau i ymarfer a datblygu eu sgiliau iaith. Cafwyd datganiad am bwysigrwydd cefnogi'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan Kirsty Williams wythnos diwethaf ac mae arweiniad i rieni ac adnoddau wedi eu rhannu ar Hwb.

Caiff mwy o adnoddau addysgol eu rhyddhau fesul ton dros yr wythnosau nesaf felly cofiwch wyllo'r gofod yn Hwb. Bydd yr adnoddau yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau defnyddiol, pecynnau gwaith a gweithgareddau y gall disgyblion ymroi i'w cwblhau yn unol ag egwyddorion sylfaenol dysgu o bell. Gwnaed ymgais i ddarparu modelau y bydd ysgolion ac athrawon yn gallu eu haddasu i gwrdd ag anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau nhw eu hunain. Hyd yma, bu ffocws ar y cyfnodau canlynol ac mae egwyddorion y Siarter Iaith Genedlaethol yn cael eu cefnogi drwyddi draw. Ystyriwyd anghenion rhieni di-Gymraeg wrth ddatblygu'r gwaith.

- Cyfnod Sylfaen, Cyfrwng Cymraeg
- Cyfnod Allweddol Dau, Cyfrwng Cymraeg
- Cynradd, Cymraeg Ail Iaith
- Uwchradd, Cyfrwng Cymraeg
- Uwchradd, Cymraeg Ail Iaith



Diolchwn i'r holl athrawon sydd yn gweithio'n ddiflino i gynnal lles ein disgyblion.



Adnoddau Addysgol ar Hwb:

[2.1 Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg](#)

[2.2 CA2 Cyfrwng Cymraeg](#)

[2.3 Cynradd Cymraeg Ail Iaith](#)

[2.4 CA3 Cyfrwng Cymraeg](#)

[2.4 CA4 Cyfrwng Cymraeg](#)

[2.5 CA3 Cymraeg Ail Iaith](#)

[2.5 CA4 Cymraeg Ail Iaith](#)

CYSYLLTU



Cofiwch gysylltu â chynrychiolydd o'ch consortiwm rhanbarthol os hoffech rannu unrhyw beth sydd yn gweithio'n eithriadol o dda gyda'ch disgyblion chi sydd yn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r iaith neu ddysgu iaith mwy 'ffurfiol' drwy ddefnydd technoleg.

Cofiwch gysylltu hefyd os hoffech ddysgu mwy am y gwaith sydd yn mynd ymlaen, yn dymuno cyfrannu neu os ydych am gynnig syniadau pellach.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

